# Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010

**2010 mccc 2**

## 9 Awdurdod yn disodli penderfyniadau sy'n ymwneud â gallu i dalu

(1) Os yw awdurdod lleol yn barnu'n rhesymol bod un neu ragor o'r amodau yn is-adran (4) wedi eu bodloni, caiff yr awdurdod yn unol â'r adran hon ddisodli penderfyniad a roddwyd o dan adran 7(1), neu o dan yr adran hon, â phenderfyniad newydd.

(2) Mewn achos pan fo rheoliadau o dan adran 4(1)(d) yn gosod dyletswydd ynglŷn â'r gwasanaeth y mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ef, mae pŵer yr awdurdod o dan is-adran (1) yn ddarostyngedig i adran 4(2).

(3) Ni chaiff penderfyniad o dan is-adran (1) fod yn wahanol i'r penderfyniad y mae yn ei ddisodli ond i'r graddau y mae'r awdurdod yn barnu eu bod yn briodol yng ngoleuni'r amod neu amodau yn is-adran (4) sydd wedi eu bodloni ym marn yr awdurdod.

(4) Dyma'r amodau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)—

- (a) bu newid yn incwm neu gyfalaf y person sy'n destun y penderfyniad;
- (b) bu newid yng nghost darparu'r gwasanaeth y mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ef (gan gynnwys newid o ganlyniad i newid yn y lefel neu i'r graddau y darperir y gwasanaeth iddi neu iddynt);
- (c) bu i'r awdurdod newid ei bolisi ynghylch arfer ei bŵer i godi ffi o dan adran 1;
- (d) bu newid arall mewn amgylchiadau sy'n dod o fewn disgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;
- (e) gwnaed camgymeriad pan wnaed y penderfyniad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 9 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(3)**

**I2** A. 9 mewn grym ar 18.3.2011 gan O.S. 2011/849, ergl. 2, **Atod.**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 18/03/2011. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010, Adran 9.